

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Bae Caerdydd, Butetown,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro

Dyddiad yr arolygiad: 05 Tachwedd 2024

Dyddiad cyhoeddi: 05 Chwefror 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Bae Caerdydd, Cangen Butetown, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 05 Tachwedd 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr ac ni chwblhawyd yr un holiadur gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd gan gleifion yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth a gafwyd gan gleifion ar Feddygfa Bae Caerdydd, Practis Butetown, a gasglwyd drwy holiadur, yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y rhan fwyaf fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd y cleifion yn canmol cwrteisi staff y dderbynfa a'r meddygon, gan ddweud eu bod yn barod i helpu. Mae'r practis yn hybu iechyd drwy fentrau amrywiol ac mae'n darparu cyfleusterau hygyrch ar gyfer hunan-fonitro metrigau iechyd. Nodwyd bod ymdrechion i ymgysylltu â'r gymuned leol, gan gynnwys cynnal sesiynau iechyd mewn mosgiau, yn gadarnhaol.

Roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a bod eu preifatrwydd yn cael ei gynnal, ac roedd hebryngwyr ar gael pan fo angen. Er y gallai'r rhan fwyaf o'r cleifion gael apwyntiadau amserol, mynegodd rhai anfodlonrwydd o ran y gallu i gael apwyntiad a chyfathrebu. Cynghorwyd y practis i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Roedd y cyfathrebu'n glir ac roedd gwybodaeth ar gael mewn sawl iaith. Fodd bynnag, anogwyd y practis i ddiweddarau ei wybodaeth hygyrchedd a hyrwyddo gwybodaeth ddwyieithog i siaradwyr Cymraeg. Roedd polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ond roedd angen gwella'r hyfforddiant gorfodol i'r staff. Roedd y practis yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r wybodaeth am hygyrchedd ar wefan y practis
- Cymryd camau i wella'r profiad i gleifion sy'n ffonio i wneud apwyntiad
- Sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cefnogi prosesau i hunan-fonitro iechyd (pwysau a phwysedd gwaed)
- Ymgysylltu â'r gymuned leol mewn perthynas â hybu iechyd
- Staff caredig a gofalggar.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Mae'r practis yn lân, yn fodern ac mewn cyflwr da, ac mae prosesau ar waith i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant. Fodd bynnag, roedd angen gwella trefniadau llywodraethu a hyfforddiant mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau. Roedd rhai prosesau rhagnodi diogel ar waith, ond nid oedd polisi na phroses ar waith ar gyfer rheoli ffurflenni presgripsiwn gwag. Roedd angen ffurfioli polisiâu diogelu, ac nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Daethpwyd o hyd i eitemau clinigol a oedd wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio yn yr ardaloedd clinigol, felly mae angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu yn hyn o beth. Mae prosesau effeithiol yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol, a gwelwyd enghreifftiau da o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf. Cynhelir archwiliadau rheolaidd ac mae systemau ar waith ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau o bwys. Mae cofnodion y cleifion yn ddiogel a chânt eu cynnal yn dda, ond mae anghysondebau o ran codau Read.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Polisiâu a phrosesau diogelu, gan gynnwys cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- Rheoli eitemau sydd wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio yn yr ardaloedd clinigol
- Diogelwch a dulliau rheoli presgripsiynau gwag.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ffurfioli trefniadau i oruchwylio rhagnodwyr anfeddygol
- Adolygu lefelau a threfniadau hyfforddiant atal a rheoli heintiau
- Archwilio cofnodion cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adeilad modern a glân sydd mewn cyflwr da
- Dysgu o ddigwyddiadau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Sefydlwyd tîm arwain newydd yn dilyn ymddeoliad aelodau o staff a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu rhannu eu pryderon â'r arweinwyr. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion cyfarfodydd yn cynnwys cofnod cynhwysfawr o gamau gweithredu, ac roedd angen prosesau rheoli dogfennau gwell ar gyfer polisiâu a gweithdrefnau a mynd ati i'w diweddarau'n rheolaidd yn unol ag anghenion penodol y practis.

Mae'r practis yn gwasanaethu 9,000 o gleifion ar draws dau safle, ond roedd lefelau staffio a phroblemau recriwtio yn peri her i'r arweinwyr. Nid oedd system ar waith

i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, ac roedd y polisiau recriwtio yn gyfyngedig, gyda threfniadau anghyson i geisio gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn peri risgiau posibl.

Ceisiwyd adborth y cleifion yn rheolaidd, ond roedd angen mwy o dryloywder o ran y camau a gymerwyd yn seiliedig ar yr adborth hwn. Roedd proses gwyno effeithiol ar waith. Roedd y practis yn cydymffurfio â gofynion GDPR, gan sicrhau bod gwybodaeth y cleifion yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd y staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd a phrosiectau ar draws y clwstwr cyfan, gan ddangos arloesedd o ran sut y darperir gofal.

Roedd gwaith partneriaeth i'w weld drwy drefniadau cydweithio o fewn y clwstwr meddygon teulu, ac roedd cyfleoedd i ehangu cysylltiadau â'r gymuned. Roedd yr argymhellion yn cynnwys ychwanegu cofnod o gamau gweithredu at gofnodion cyfarfodydd, cryfhau prosesau rheoli dogfennau, adolygu lefelau staffio, rhoi system ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant, sicrhau y ceisir gwiriadau cyson gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwell tryloywder o ran gweithredu ar adborth cleifion, a gwella cysylltiadau ag asiantaethau wedi'u cydleoli.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Cwblhau a chofnodi gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyson ar gyfer pob aelod o'r staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a gwella cofnodion cyfarfodydd
- Cryfhau systemau rheoli dogfennau
- Adolygu lefelau staffio
- Adolygu cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a rhoi system fonitro ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- System monitro cwynion cynhwysfawr
- Llywodraethu gwybodaeth.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal a ddarperir ym Meddygfa Bae Caerdydd, practis Butetown. Cafwyd cyfanswm o 12 o holiaduron, gyda phob un ohonynt yn gadarnhaol ym mhob maes ar y cyfan, gan ddweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Roedd staff y dderbynfa yn garedig ac yn barod i helpu bob amser.”

“Mae staff y dderbynfa ym Meddygfa Bae Caerdydd a'r grŵp o feddygon wedi bod yn gwrtais iawn erioed ac maent yn parchu fy anghenion. Maent bob amser wedi gwrandao ar fy mhryderon ac wedi mynd i'r afael â nhw yn briodol.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd a llesiant ar gael yn y practis. Roedd yr hysbysfyrddau a'r sgrin wybodaeth yn y dderbynfa yn arddangos amrywiaeth eang o fentrau hybu iechyd, a oedd yn cynnwys rhoi'r gorau i smygu, yfed llai o alcohol a bwyta'n iach.

Gwnaeth ymatebion i'n holiadur i gleifion gadarnhau bod deunydd hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion yn cael eu harddangos yn y practis. Yn ogystal, dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnig cyngor a gwybodaeth hybu iechyd am gyflyrau cronig i'r cleifion.

Roedd ystafell ar gael ger y dderbynfa lle gallai'r cleifion ddefnyddio'r glorian a'r peiriant pwysedd gwaed, yna caiff eu canlyniadau eu trosglwyddo i staff y dderbynfa er mwyn eu rhoi yn eu cofnodion. Mae hwn yn faes o arfer canmoladwy, oherwydd gall cleifion ddefnyddio'r cyfleusterau hyn unrhyw bryd y bydd y feddygfa ar agor. Byddai mwy o gleifion yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn pe byddai hysbysiad â chyfarwyddiadau clir yn cael ei arddangos.

Dywedwyd wrthym am amrywiaeth o fentrau a gynhelir gan y practis i ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned amrywiol leol. Roedd sesiynau hybu iechyd yn cael eu

darparu mewn mosgiau lleol mewn perthynas â nifer o faterion iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl dynion. **Nodwyd bod hyn yn arfer da a chanmoladwy.**

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau addas ar waith i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom enghreifftiau o'r staff yn gwneud hynny drwy gau neu gloi drysau, ac roedd y staff yn trin cleifion mewn modd cwrtais, parchus a charedig.

Roedd bron pawb a ymatebodd i'n holiadur yn cytuno:

- Bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch
- Bod mesurau ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Bod y staff wedi gwrandao arnynt.

Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr o dan amgylchiadau priodol. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant yn hyn o beth, ac roedd arwydd ar y sgrin yn nodi bod hebryngwyr ar gael.

Amserol

Gofal amserol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai cleifion gael gofal mewn ffordd amserol, a hynny gan y person mwyaf priodol.

Disgrifiodd y staff y trefniadau i'r cleifion gael gafael ar wasanaethau a gwnaethant gadarnhau, pe bai'n briodol, y gellid cael apwyntiadau yn y prif bractis o bosibl os nad oedd rhai ar gael yng nghanen Butetown.

Gwelsom dystiolaeth bod rheolwr y practis yn monitro lefelau boddhad cleifion mewn perthynas â'u gallu i gael apwyntiadau a gofal amserol. Roedd y wybodaeth hon yn dangos bod rhai cleifion yn anfodlon ar eu gallu i gael apwyntiad ac roedd yn cynnwys camau gweithredu er mwyn gwella hyn. Cadarnhaodd sawl ymatebwr i'r holiadur i gleifion eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod ar gyfer materion brys, a dywedodd pob un ond dau y gallent gael apwyntiadau arferol pan oedd angen.

Gwnaeth rhai cleifion sylwadau ar eu gallu i gael apwyntiadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

“Mae angen oriau agor hirach, mae'n cau am 1pm.”

“Mae diffyg cydgysylltu a chyfathrebu. Mae dwy gangen, ond nid yw'r system apwyntiadau ar-lein yn nodi pa gangen.”

“Ffoniais i ofyn am apwyntiad â meddyg teulu. Cefais gynnig galwad 10 munud bythefnos yn ddiweddarach.”

Rhaid i'r practis ystyried y sylwadau rydym wedi'u cael gan gleifion a chymryd camau lle bo angen i wella profiad cleifion sy'n ffonio i drefnu apwyntiad.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent hefyd yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal.

Fel arfer, roedd cleifion yn cael gwybod am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan a thrwy wybodaeth a diweddariadau a gaiff eu rhannu drwy wasanaeth negeseuon testun. Er bod y wefan ar gael mewn llawer o ieithoedd gwahanol, roedd gwybodaeth am hygyrchedd ar wefan y practis nad oedd wedi cael ei diweddarau.

Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r wybodaeth am hygyrchedd ar wefan y practis.

Os oedd yn hysbys nad oedd gan gleifion ffôn symudol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn.

Mae'r practis yn gwasanaethu cymuned amrywiol a chadarnhaodd y staff fod cymorth gydag iaith a chyfieithu yn cael ei ddefnyddio pan oedd angen er mwyn helpu cleifion i gyfathrebu'n effeithiol.

Dywedwyd wrthym nad oedd llawer o gleifion a oedd yn siarad Cymraeg ac nad oedd unrhyw staff yn siarad Cymraeg. Fel rhan o'r “cynnig rhagweithiol” ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, dylai gwybodaeth y practis a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Gwelsom fod rhai arwyddion a phosteri ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, roedd taflen wybodaeth y practis yn Saesneg yn unig.

Dylai rheolwr y practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo drwy bolisiau Gwrthwahananiaethu a Chyfle Cyfartal.

Dywedwyd wrthym nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar adeg yr arolygiad, ac ni allai'r staff gadarnhau pwy oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn, os o gwbl.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac y cedwir cofnod er mwyn rhoi tystiolaeth o hyn.

Roedd y practis yn hygyrch i gleifion ag amrywiaeth o anghenion symudedd a mynediad. Roedd lifft o'r llawr gwaelod er mwyn cyrraedd y practis a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd drysau llydan er mwyn cefnogi mynediad i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn, ac roedd y cyfleuster hunanwasanaeth i gleifion nodi eu bod wedi cyrraedd ar gael mewn sawl iaith.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis yn lân, yn daclus ac yn fodern. Nid oedd unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da. Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r practis hefyd.

Gwnaethom edrych ar gynllun parhad busnes y practis, dyddiedig Mawrth 2024. Roedd hwn yn ymdrin â'r risg i'r bartneriaeth fusnes, risg pandemig a chynlluniau wrth gefn digon manwl ar gyfer absenoldeb salwch hirdymor.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd rhai polisiau a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu cleifion, staff ac ymwelwyr yn y practis. Er na welwyd unrhyw bryderon penodol o ran atal a rheoli heintiau a dihalogi, roedd rhai meysydd lle gellid cryfhau trefniadau llywodraethu a hyfforddiant ar gyfer atal a rheoli heintiau ymhellach.

Roedd arweinydd atal a rheoli heintiau yn y practis, ond nid oedd wedi cwblhau'r cwrs deuddydd perthnasol ac nid oedd yn gyfrifol am bob mater yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau.

Nid oedd cofnod yn cael ei gadw o ba staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau na phryd yr oedd angen ei ddiweddarau.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau sy'n berthnasol i'w rôl, ac y cedwir cofnod er mwyn rhoi tystiolaeth o hyn.

Gwnaethom edrych ar archwiliad atal a rheoli heintiau a gwelsom y gellid gwneud gwelliannau i'w wneud yn gliriach ac yn fwy effeithiol.

Rhaid adolygu a diweddarau'r templed ar gyfer archwiliadau atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys pob rhan o'r practis. Yn ogystal, dylid cofnodi meysydd i'w gwella a chynnwys pwyntiau gweithredu a dyddiadau cwblhau.

Gwelsom fod cofnod ar waith i ddangos bod y staff clinigol wedi cael eu brechiadau Hepatitis B a bod ganddynt ymateb imiwedd.

Gwnaethom edrych ar amserlenni glanhau ac roedd y rhain yn briodol ac yn gyfredol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Roedd y broses i gleifion wneud cais am feddyginiaeth reolaidd yn glir, a gellid gwneud hyn drwy Fy lechyd Ar-lein, drwy geisiadau am bresgripsiynau rheolaidd gan fferyllfa benodol, a cheisiadau personol yn y practis. Roedd archwiliadau adolygu meddyginiaethau cleifion yn cael eu cynnal ac roedd meddyginiaethau yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr presgripsiynau rheolaidd os nad oedd claf yn eu cymryd mwyach.

Gwnaethom ystyried y prosesau sydd ar waith i sicrhau bod ffurflenni presgripsiwn gwag yn ddiogel. Cadarnhaodd arweinwyr y practis nad oedd proses ar waith i fonitro'r broses o ddyrannu padiau presgripsiwn i ragnodwyr, ac nid oedd rhifau cyfresol ffurflenni presgripsiwn gwag yn cael eu cofnodi 'chwaith. Yn ogystal, nid oedd proses na pholisi ffurfiol ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli ffurflenni presgripsiwn gwag. Ymdriniwyd â'r materion ynghylch ffurflenni presgripsiwn gwag o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau rhagnodi a oedd ar waith ar gyfer y fferylllydd a oedd yn rhagnodydd anfeddygol. Er bod yr arweinwyr wedi cadarnhau bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i adolygu'r trefniadau hyn, nid oedd y broses wedi'i ffurfioli ac nid oedd unrhyw broses adolygu ac archwilio ffurfiol ar waith i fonitro rhagnodwyr anfeddygol.

Rhaid i'r practis roi proses ffurfiol ar waith i adolygu a chefnogi arferion rhagnodi pob rhagnodydd anfeddygol.

Diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom ystyried y prosesau sydd ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, roedd y rhain yn anffurfiol ac nid oeddent yn gadarn.

Yn ystod yr arolygiad, ni allai arweinwyr y practis ddarparu tystiolaeth i gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu sy'n berthnasol i'w rôl. Yn ogystal, nid oedd y polisi diogelu yn nodi pwy yw'r arweinydd diogelu dynodedig, ac ni allai rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau pwy oedd yr arweinydd diogelu dynodedig yn y practis. Roedd hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion.

Ymdriniwyd â'r materion ynghylch diogelu a nodwyd gennym o dan ein proses sicrwydd ar unwaith, a nodir yn Atodiad B.

Roedd proses ar waith ar gyfer olrhain plant nad oeddent yn mynychu eu hapwyntiadau. Fodd bynnag, nid oedd codau Read priodol yn cael eu cofnodi ar y system cofnodion gofal electronig ar gyfer plant sy'n wynebu risg/plant sy'n derbyn gofal er mwyn nodi'r rhai sy'n wynebu risg ar unwaith. Dywedwyd wrthym hefyd

nad oedd cyfarfodydd diogelu rheolaidd wedi cael eu cynnal dros y misoedd diwethaf.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod y polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn gadarn ac yn gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru**
- **Bod cyfarfodydd diogelu yn cael eu cynnal yn rheolaidd**
- **Bod codau Read yn cael eu defnyddio'n briodol i nodi plant sy'n wynebu risg a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.**

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd rhai prosesau ar waith yn y practis i gynnal a chadw dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn ddiogel.

Roedd hyn yn cynnwys contractau sydd ar waith ar gyfer cynnal a chadw a chalibradu cyfarpar fel y bo'n briodol, ac ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio brys neu ddarparu cyfarpar newydd.

Roedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys priodol ar gael i reoli argyfwng yn ymwneud â chlaf, megis ataliad y galon. Roedd y rhain yn cyrraedd y safonau cyfarpar gofal sylfaenol fel y'u hamlinellwyd yng nghanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Gwnaethom edrych ar y prosesau oedd ar waith ar gyfer gwirio'r holl gyfarpar adfywio, a'r cyffuriau brys perthnasol, a'r ocsigen cludadwy, ac ar gyfer darparu eitemau newydd lle roedd eu hangen. Roedd y gwiriadau yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n rheolaidd.

Nid oedd yn amlwg ble roedd cyfarpar brys yn cael ei storio yn y practis, sy'n peri risg os caiff staff locwm eu defnyddio.

Dylai rheolwr y practis ystyried gosod hysbysiad yn y man storio perthnasol lle caiff y cyfarpar brys ei gadw, er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd iddo'n gyflym os bydd argyfwng yn ymwneud â chlaf.

Gwelsom eitemau clinigol yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn yr ardaloedd clinigol, megis rhwymynnau, chwistrellau, menig, torwyr/tynwyr pwythau a nodwyddau. Roedd hyn yn peri risg o haint os caiff eitemau ansteril eu defnyddio i drin cleifion. Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith, a nodir yn Atodiad B.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol, ac roedd yn cynnwys darparu triniaeth neu ofal yn y brif feddygfa pan fyddai meddygfa'r gangen yn llawn neu ar gau. Gwelsom enghreifftiau da o reoli salwch aciwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Hefyd, disgrifiodd y staff systemau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau o bwys a dysgu ohonynt ac o weithgareddau archwilio, megis gwella ymarfer yn dilyn archwiliadau o wrthfotigau.

Cadarnhaodd y staff clinigol yn ystod cyfweiliadau fod proses gynhwysfawr ar waith ar gyfer rhannu a derbyn ymarfer newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau NICE newydd neu ddiwygiedig.

Cofnodion cleifion

Pan gynhaliwyd yr arolygiad, roedd paratodau yn cael eu gwneud i symud y system TG ar gyfer cleifion i system newydd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion electronig deg claf. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd cyfrinair arnynt er mwyn atal unrhyw fynediad heb awdurdod. Roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roedd y cofnodion yn gyfredol ac yn hawdd i glinigwyr eraill eu deall. Roedd codau Read yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar y cyfan ac roeddent yn briodol ar gyfer cyflwr clinigol claf. Fodd bynnag, gwelwyd rhai anghysondebau o ran y ffordd roedd clinigwyr gwahanol yn defnyddio codau Read.

Rhaid i'r practis archwilio cofnodion y cleifion a'r ffordd y defnyddir codau Read er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei chofnodi mewn ffordd gyson.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd tîm arwain cymharol newydd ar waith, yn dilyn ymddeoliad rhai aelodau o staff a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu mynd at yr arweinwyr i fynegi unrhyw bryderon ac y byddent yn ymdrin â nhw'n briodol. Cadarnhaodd yr arweinwyr fod polisi drws agored ar waith er mwyn i'r staff allu rhannu pryderon a syniadau ar gyfer y practis.

Rhoddodd rheolwr y practis gofnodion a gwybodaeth am gyfarfodydd staff i ni, a rhoddodd wybod i ni fod y rhain yn cael eu rhannu drwy e-bost a'u bod ar gael ar y gyriant a rennir. Nid oedd cofnodion y cyfarfodydd y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys cofnodlyfr o gamau gweithredu lle y bo'n gymwys, er mwyn i'r unigolion a oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu allu deall beth oedd yn ofynnol ganddynt.

Dylai'r practis ystyried cynnwys cofnodlyfr o gamau gweithredu fel rhan o gofnodion cyfarfodydd er mwyn neilltuo camau gweithredu yn effeithiol a'u monitro'n briodol.

Gwnaethom edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau a gafodd eu diweddarau'n ddiweddar, a dywedwyd wrthym eu bod yn hygyrch i'r staff. Fodd bynnag, prin oedd y systemau rheoli dogfennau a oedd ar waith, ac nid oedd rhai polisiau wedi cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion penodol y practis.

Rhaid i'r practis gryfhau ei drefniadau llywodraethu er mwyn cynnwys proses rheoli ac adolygu dogfennau gadarn a sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn berthnasol i'r practis ac ar gael i'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd y practis yn brysur, gyda 9,000 o gleifion ar draws y ddau safle. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael trafferth recriwtio staff clinigol a'u bod wrthi'n recriwtio ar gyfer rôl nyrs y practis. Gwnaethom nodi bod aelod o staff y dderbynfa wedi dechrau hyfforddiant fel Cynorthwydd Gofal Iechyd, a oedd yn dangos ymrwymiad i ddatblygu a chadw'r staff. Roedd y lefelau staffio yn ymddangos yn

isel o ystyried nifer y cleifion, a byddai cynyddu'r lefelau staffio yn golygu y gellid dirprwyo dyletswyddau'n fwy.

Dylai'r practis adolygu'r niferoedd staffio er mwyn sicrhau bod nifer priodol o staff i reoli faint o gleifion a wasanaethir a bod y nifer yn unol ag arferion gorau / canllawiau.

Nid oedd proses ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol. Byddai rhoi matrices hyfforddiant ar waith yn nodi cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn hawdd ynghyd â'r rhai y mae angen iddynt gwblhau neu adnewyddu eu hyfforddiant. Felly, nid oedd yn bosibl cadarnhau cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant gorfodol a dylid rhoi system ar waith i gofnodi cydymffurfiaeth.

Roedd polisiau a gweithdrefnau recriwtio cyfyngedig ar waith ac nid oedd tystiolaeth wedi'i chofnodi i gadarnhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau ar y lefel ofynnol ar gyfer pob aelod o staff y practis. Roedd hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion. Ymdriniwyd â'r gofyniad i gwblhau a monitro gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y staff o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y practis yn gofyn am adborth rheolaidd gan gleifion, a gwelsom enghreifftiau lle roedd camau gweithredu wedi cael eu cymryd a gwersi wedi'u dysgu. Roedd gwybodaeth yn cael ei dangos ym mhob ardal yn nodi sut y gallai pobl roi adborth ar eu profiadau. Nid oedd gwybodaeth ar gael a oedd yn nodi sut y cafodd pryderon a sylwadau gan bobl eu defnyddio i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth.

Dylai'r practis ystyried gosod hysbysfwrdd/poster "Dywedoch chi, gwnaethom ni" er mwyn dangos i gleifion y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i adborth a gafwyd.

Roedd proses gwynion effeithiol ar waith yn ogystal â system olrhain i fonitro, adolygu a datrys cwynion ac adborth. Roedd hyn yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu'r trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod y staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd drwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd rhan uniongyrchol mewn prosiectau ar draws y clwstwr cyfan.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth lle roedd y practis yn cydweithio fel rhan o'r clwstwr meddygon teulu. Roedd staff meddygol yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstwr cyfan.

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol y gymuned ac mae amrywiaeth eang o wasanaethau eraill yn yr un adeilad. Felly, mae cyfleoedd ychwanegol ar gael i'r practis gryfhau ei gysylltiadau â'r gymuned.

Dylai'r practis ystyried sut y gall wella cysylltiadau ag asiantaethau neu wasanaethau eraill sydd ar yr un safle.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Bae Caerdydd, Cangen Butetown

Dyddiad yr arolygiad: 5 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar brosesau, dogfennaeth a ffeiliau'r staff. Nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod pob aelod o staff y practis wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion.	<p>Rhaid rhoi system gadarn ar waith mewn perthynas â chwblhau a monitro gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff.</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhaid i'r gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff a'u cadw ar ffeil Rhaid i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cwblhau cyn cyflogi staff, a dylid cadw tystiolaeth o hyn ar ffeil. 	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	<ul style="list-style-type: none"> Mae ceisiadau am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer aelodau o staff y mae angen adnewyddu eu gwiriad neu y mae angen gwiriadau cychwynnol arnynt. Mae ffeiliau'r staff wedi cael eu diweddarau er mwyn cynnwys eu statws gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae cofnodlyfr ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu 	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

		Rhaid i'r staff gadarnhau bob blwyddyn fod y wybodaeth ar eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dal i fod yn gywir ac na fu unrhyw newidiadau ers i'r gwiriad hwn gael ei gynnal.		a Gwahardd wedi cael ei greu er mwyn adolygu pryd y daw gwiriadau i ben. Mae'r ffurflen arfarnu flynyddol wedi cael ei diweddarau er mwyn cynnwys statws y staff gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chadarnhau bod eu gwybodaeth yn gywir ac na fu unrhyw newidiadau ers y gwiriad.		
2.	Yn ystod yr arolygiad, ni allai arweinwyr y practis ddarparu tystiolaeth i gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar y lefelau gofynnol. Yn ogystal, nid oedd y polisi diogelu a oedd ar waith yn y practis yn nodi pwy yw'r arweinydd diogelu dynodedig, ac ni allai rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau pwy oedd yr arweinydd diogelu dynodedig yn y practis. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion.	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu a diweddarau'r polisiau a'r prosesau diogelu a'u rhannu â phob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn gwybod sut i godi pryder yn ymwneud â diogelu • Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol perthnasol ar ddiogelu • Rhoi system gadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant. 	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r polisiau diogelu wedi cael eu hadolygu, eu diweddarau a'u cyhoeddi er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu a sut i fynegi pryder ynglŷn â diogelu. • Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu. • Mae matrices hyfforddiant wedi cael ei greu gan 	Rheolwr y Practis a Meddyg Teulu sy'n bartner	Wedi'i gwblhau

				<p>restru'r hyfforddiant sydd wedi dod i ben, yr hyfforddiant sy'n ofynnol a'r hyfforddiant sydd wedi'i gwblhau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r dogfennau canlynol wedi cael eu creu/addasu er mwyn sicrhau y cydymffurfir â hyfforddiant: Ffurflen Arfarnu Flynyddol Matrics Hyfforddiant Rhaglen Sefydlu 		
3.	<p>Yn ystod yr arolygiad, canfu AGIC eitemau mewn ardaloedd clinigol yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio ac nad oeddent wedi'u gwaredu. Roedd yr eitemau hyn yn cynnwys: rhwymynnau, chwistrellau, menig, tynwyr pwythau a nodwyddau. Os yw dyddiad defnyddio cyfarpar wedi mynd heibio, gall fod yn anniogel. Mae risg i</p>	<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y caiff yr holl eitemau y mae eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio eu symud o'r ardaloedd clinigol ac y cânt eu gwaredu'n briodol Datblygu, gweithredu a chynnal system gadarn ar gyfer rheoli 	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - (Dyfeisiau) Diogel</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gallaf gadarnhau bod yr holl eitemau y mae eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio wedi cael eu symud o'r ardaloedd clinigol a'u gwaredu'n briodol. Mae rhestrau gwirio wythnosol ar gyfer eitemau wedi'u sterileiddio yn yr ystafelloedd clinigol wedi cael eu creu ac 	<p>Nyrs y Practis a Rheolwr y Practis</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

	ddiogelwch y cleifion a'r staff os defnyddir cyfarpar y mae ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio.	deunyddiau wedi'u diheintio		mae unigolion (aelod o staff y dderbynfa - SB, a Nyrs y Practis yn absenoldeb yr aelod o staff enwebedig) wedi cael eu henwebu i gwblhau'r rhestr wirio unwaith yr wythnos (ar ddydd Mercher).		
4.	<p>Yn ystod yr arolygiad, ystyriodd AGC y prosesau sydd ar waith i sicrhau bod ffurflenni presgripsiwn gwag yn ddiogel. Nid oedd proses na pholisi ar waith mewn perthynas â rheoli ffurflenni presgripsiwn gwag. Cadarnhaodd arweinwyr y practis nad oedd system ar waith i reoli a chofnodi symudiad ffurflenni presgripsiwn. Nid oedd system ar waith ar gyfer cofnodi rhifau cyfresol ffurflenni presgripsiwn gwag.</p> <p>Os nad oes mesurau digonol ar waith, mae risg y caiff ffurflenni</p>	<p>Rhaid i'r practis roi system a pholisi cadarn a diogel ar waith i sicrhau bod ffurflenni presgripsiwn gwag yn ddiogel. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys manylion am sut y bydd y practis yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Atal ffurflenni presgripsiwn gwag rhag cael eu dwyn a'u camddefnyddio drwy eu storio'n ddiogel • Datblygu polisi sefydliadol yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau • Datblygu protocolau gweithredu lleol yn amlinellu pa gamau y dylid eu cymryd os bydd ffurflenni/papur presgripsiwn yn cael eu colli, yn cael eu dwyn neu'n mynd ar goll 	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Protocol Diogelwch Presgripsiynau wedi cael ei greu a'i gyhoeddi i sicrhau bod ffurflenni a phadiau presgripsiwn gwag yn ddiogel. • Mae'r ddogfen yn cynnwys y manylion canlynol: Trefniadau storio diogel i atal ffurflenni presgripsiwn rhag cael eu dwyn a'u camddefnyddio. Camau i'w cymryd os bydd ffurflenni neu bediau presgripsiwn yn cael eu colli, yn cael eu dwyn neu'n mynd ar goll. • Mae cofnodlyfr presgripsiynau wedi cael 	Rheolwr y Practis a Meddyg Teulu sy'n bartner	Wedi'i gwblhau

<p>presgripsiwn eu dwyn, eu camddefnyddio neu eu defnyddio at ddibenion twyll.</p>	<p>Rheoli a chofnodi symudiad ffurflenni presgripsiwn, gan gynnwys cofnodi rhifau cyfresol</p>		<p>ei greu er mwyn cofnodi'r canlynol: Ffurflenni presgripsiwn a gaiff eu harchebu a'u derbyn. Rhifau cyfresol ffurflenni presgripsiwn. Symudiad ffurflenni presgripsiwn. Mae unigolion (KZ ac SB, NH yn absenoldeb yr unigolion enwebedig) wedi cael eu henwebu i fod yn gyfrifol am archebu, derbyn a symudiad presgripsiynau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae hen bediau presgripsiwn gan bob clinigydd wedi cael eu casglu a'u dinistrio. • Gwnaed cais am bad presgripsiwn newydd a ddefnyddir pan fo angen. 		
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): *Abeeda Taj*

Teitl swydd: Abeeda Taj

Dyddiad: 14 Tachwedd 2024

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Bae Caerdydd, Cangen Butetown

Dyddiad yr arolygiad: 5 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod wedi cael profiad gwael wrth ffonio i drefnu apwyntiad	Rhaid i'r practis ystyried y sylwadau rydym wedi'u cael gan gleifion a chymryd camau lle bo angen i wella profiad cleifion sy'n ffonio i drefnu apwyntiad	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Amserol	<ul style="list-style-type: none">Er mwyn lleihau amser aros, rydym wedi cyflwyno cyfleuster ffonio'n ôl yn ddiweddar ar gyfer cleifion sy'n aros yn y ciw.Er mwyn darparu ar gyfer mwy o gleifion, rydym wedi cynyddu nifer yr apwyntiadau sydd ar gael bob dydd yn ddiweddar.	AT	Ebrill 2025

				Rydym wrthi'n trefnu hyfforddiant ar wasanaeth cwsmeriaid i bob aelod o'r staff er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion ymhellach.		
2.	Nid yw'r adran ar hygyrchedd ar wefan y practis wedi cael ei diweddarau	Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r wybodaeth am hygyrchedd ar wefan y practis	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Teg	<ul style="list-style-type: none"> Rydym yn adolygu'r adran hygyrchedd ar ein gwefan a byddwn yn ei diweddarau'n brydlon. 	EA	Mawrth 2025
3.	Nid oedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n gyson i gleifion	Dylai rheolwr y practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Teg	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wrthi'n adolygu ac yn diweddarau ein gwefan er mwyn gwella'r cynnwys Cymraeg sydd ar gael i ddefnyddwyr. Rydym wrthi'n rhoi polisi ar waith fel bod modd adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn 	EA	Mawrth 2025

				hawdd, er enghraifft drwy wisgo bathodyn.		
4.	Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac y cedwir cofnodlyfr o'r hyfforddiant a gaiff ei gwblhau	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Teg	<ul style="list-style-type: none"> Mae hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi cael ei drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff. <p>Mae cofnodlyfr hyfforddiant wedi cael ei greu a chaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn olrhain cynnydd.</p>	AT	Chwefror 2025
5.	Nid yw'r arweinydd atal a rheoli heintiau wedi cwblhau'r hyfforddiant deuddydd perthnasol eto.	Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r gofynion hyfforddiant gorfodol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y lefel briodol	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wrthi'n trefnu sesiynau hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau ar gyfer pob aelod o'r staff. 	AT	Ebrill 2025

6.	Nid oedd yr archwiliad atal a rheoli heintiau a welsom yn ddigon eglur	Rhaid adolygu a diweddarau'r templed ar gyfer archwiliadau atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu'r practis cyfan, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys pwyntiau gweithredu a dyddiadau	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Rydym yn adolygu ac yn diweddarau ein templedi ar gyfer archwiliadau atal a rheoli heintiau er mwyn eu gwneud yn fwy trylwyr a chynnwys pwyntiau gweithredu a therfynau amser/dyddiadau.	AT	Ebrill 2025
7.	Nid oedd rhagnodwyr anfeddygol yn cael adolygiadau ffurfiol	Rhaid i'r practis roi proses ffurfiol ar waith i adolygu arferion rhagnodi pob rhagnodydd anfeddygol	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Mae adolygiad ffurfiol o ragnodydd anfeddygol wedi cael ei drefnu a chaiff proses ei chyflwyno'n fuan er mwyn cynnal adolygiadau rheolaidd.	AT	Mawrth 2025
8.	Mae'r practis wedi atal cyfarfodydd diogelu dros dro ac nid oedd yn defnyddio codau Read priodol ar gyfer plant sy'n wynebu risg / plant sy'n derbyn gofal	Rhaid i'r practis adolygu a gwella'r holl bolisiau a gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys <ul style="list-style-type: none"> - ailgyflwyno cyfarfodydd diogelu rheolaidd a chymryd cofnodion ohonynt - sicrhau bod codau Read priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer plant sy'n wynebu risg 	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff polisiau a gweithdrefnau diogelu eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau: Bod cyfarfodydd diogelu yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac y cymerir cofnodion ohonynt. 	Pob clinigydd/AT	Mawrth 2025

		a phlant sy'n derbyn gofal		Bod codau Read priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer nodiadau clinigol plant sy'n wynebu risg a phlant sy'n derbyn gofal.		
9.	Nid oedd arwydd clir ar ddrws y man lle caiff y cyfarpar brys ei storio	Dylai rheolwr y practis ystyried gosod arwydd i ddangos lle caiff y cyfarpar brys ei gadw, er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd iddo'n gyflym os bydd argyfwng yn ymwneud â chlaf.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	<ul style="list-style-type: none"> Mae arwyddion clir yn lleoliadau'r troli/cyfarpar brys, gan sicrhau y gellir cael gafael arno'n gyflym os bydd argyfwng yn ymwneud â chlaf. 	AT	Wedi'i gwblhau
10.	Gwelwyd anghysondeb yng nghofnodion rhai cleifion o ran y ffordd roedd clinigwyr yn defnyddio codau Read	Rhaid i'r practis archwilio cofnodion y cleifion a'r ffordd y defnyddir codau Read er mwyn sicrhau y defnyddir dull cofnodi cyson	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Caiff cofnodion y cleifion eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau y defnyddir codau Read mewn ffordd gyson.	EA/MAN/AAN	Mawrth 2025
11.	Nid oedd cofnodion cyfarfodydd yn cynnwys cofnodlyfrau o gamau gweithredu	Dylai'r practis ystyried cynnwys cofnodlyfr o gamau gweithredu fel rhan o gofnodion cyfarfodydd er mwyn olrhain camau	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Effeithiol	Eisoes ar waith	AT	Wedi'i gwblhau

		gweithredu yn effeithiol a'u dyrannu'n briodol				
12.	Roedd prosesau rheoli dogfennau yn anghyson ac nid oedd pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol ac yn benodol i'r practis	Rhaid i'r practis gryfhau ei drefniadau llywodraethu er mwyn cynnwys proses rheoli ac adolygu dogfennau ddigonol sy'n sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn berthnasol i'r practis ac ar gael i'r staff	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Caiff adolygiad blynyddol o brosesau rheoli dogfennau, anghenion hyfforddiant a pholisiau ei gynnal bob mis Ebrill er mwyn sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol, ar gael i'r staff ac yn berthnasol i'n practis. 	AT	Ebrill 2025
13.	Wrth adolygu'r lefelau staffio, nodwyd eu bod yn ymddangos yn isel o ystyried nifer y cleifion a wasanaethir	Dylai'r practis adolygu'r lefelau staffio gyda'r nod o sicrhau bod y lefelau staffio yn unol ag arferion gorau / canllawiau	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y cynorthwydd gofal iechyd mewnol yn dechrau hyfforddiant ym mis Chwefror 2025. 	MAN/AAN/EA/AT	Ebrill 2025

				Rydym yn gobeithio cyflogi nyrs practis newydd.		
14.	Nid oes system ar waith ar gyfer cofnodi a monitro cyrsiau hyfforddiant gorfodol	Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau cyrsiau hyfforddiant gorfodol pob aelod o'r staff a rhoi system ar waith i sicrhau bod modd adolygu a monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, a'i gwella pan fo angen	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Effeithiol	Mae cofnodlyfr hyfforddiant wedi cael ei greu a chaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn barhaus â gofynion hyfforddiant gorfodol.	AT	Wedi'i gwblhau
15.	Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos ynglŷn â'r hyn y mae'r practis yn ei wneud gyda chwynion / sylwadau a geir.	Dylai'r practis ystyried ychwanegu gwybodaeth "Dywedoch chi, gwnaethom ni" er mwyn dangos i gleifion y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i adborth a gafwyd	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Effeithiol	Rydym wrthi'n creu adran benodol ar y wefan ac yn yr ardal aros i dynnu sylw at y gwelliannau a wnaed mewn ymateb i adborth gan gleifion.	AT/EA	Ebrill 2025
16.	Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar yr un safle â'r practis	Dylai'r practis ystyried gwella cysylltiadau â'r asiantaethau eraill sydd ar yr un safle	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Effeithiol	Rydym wrthi'n trefnu cyfarfodydd gyda'r gwasanaethau hyn	AT	Ebrill 2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Abeeda Taj
Teitl swydd: Rheolwr y Practis
Dyddiad: 21 Ionawr 2025